menter fachwen

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

Menter Fachwen NEWS - Ionwar / January 2019

BILINGUAL POST

CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN

MENTER FACHWEN WALK AND DISCOVER PROJECT

Annwyl Gyfeillion

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd. Wir obeithio eich bod wedi mwynhau eich hunain dros y 'Dolig. Edrychwn ymlaen nawr i 2019 ac mae'n ymddangos bod blwyddyn prysur dros ben o'n blaen gyda sawl prosiectau newydd ar y gorwel (ac bydd angen eich cymorth gyda rhai ohonynt).

Hoffwn ddiolch i chi gyd daeth i wneud ein digwyddiadau yn Ysgolion Deiniolen a Chwm y Glo cyn y Nadolig yn rhai mor llwyddiannus. Cyn oedi ymhellach – dyma'r newyddion:
RHAGLEN TEITHIAU CERDDED

Gair i'ch atgoffa, ar ol bron 6 mlynedd o drefnu teithiau cerdded bob mis ein bod yn cael ychydig o seibiant ohonynt y mis hwn. Mae'n fis hynod o brysur o ran gwaith fel y gwelwch isod. Bydd y teithiau yn ail-gychwyn yn Chwefror. Wedi dweud hyn, efallai cewn cyfle yn fuan iawn i grwydro noswaith clir i wylio'r ser (neu'r lleuad)….. Mi adawai chi wybod!

MAP, ARDDANGOSFA AC 'APP' "HANES YR IDDEWON YM MANGOR"

Mae map 'Hanes yr Iddewon ym Mangor' ar y cyd a'r Brifysgol wedi ei gwblhau (gweler yr attachment) ac nawr rydym yn gweithio ar arddangosfa o'r gwaith ac 'app' newydd (gyda'r map a'r hanesion amdano yn ardal Dinas Bangor). Bydd rhaid cwblhau y gwaith yma i gyd cyn diwedd y mis a mi wnai adael i chi wybod pryd bydd yr arddangosfa yn agor. Y lleoliad bydd y galeri sydd yn un o'r unedau yn Ganolfan Siopa Deiniol yn Bangor.

CYRRAEDD Y 10,000

Yn ystod y diwrnod Hanes Ysgol a Pentref Cwm y Glo ar Rhagfyr 6ed, fe gyrhaeddodd y Cynllun Cerdded a Darganfod garreg filltir arbennig. Fe gerddodd y deng milfed person i fynychu ein gweithgareddau (teithiau cerdded/sgyrsiau/arddangosfeydd ayy) ers sefydlu'r prosiect yn Mawrth 2013 i mewn trwy'r drws. Enid Williams o Lanrug roedd y deng milfed person a chafodd ei gyflwyno a rhodd gan Menter Fachwen (gan gobeithio iddo fynd i lawr yn dda diwrnod 'Dolig). Ymlaen nawr i'r 10,000 nesaf!!!!

PROSIECTAU I DDOD

Fel oeddwn yn sôn, mae'n edrych tebyg bod blwyddyn prysur iawn o'n blaen gyda nifer o prosiectau newydd i ddod yn cynnwys:
CYNLLUN HEL ENWAU LLEOLEDD YR ARDAL. Os caiff ei gadarnhau, mae'r Cymdeithas Hen Enwau wedi gofyn i ni weithio ar y cynllun yn ein ardal ac hefyd i gynnwys y chwarel a Dinas Bangor. Yng nghlwm gyda

hwn byddwn yn cynnal teithiau cerdded, arddangosfeydd, cyfweliadau ac ati. Ein gobaith yw y bydd nifer ohonoch yn gallu ein helpu…..
MAP ALLT DDU: Byddwn yn gweithio ar creu map arddangos yn Allt Ddu, Dinorwig ar y cyd a Cyngor Llanddeiniolen.
RAF LLANDWROG: Cynllun Mapio Maes Awyr Caernarfon yn y Rhyfel a dogfennau addysg i ysgolion.
CYFLWYNIADAU AC ARDDANGOSFEYDD HANES YR ARDAL YN YR U.D.A. Byddwn yn mynd nol i Minnesota yn Mis Ebrill i helpu Hywel Roberts o 'Wild Wales Walkabouts' trefnu digwyddiadau arbennig a rhoi cyflwyniadau yn Winona a Minneapolis.

Cewch rhagor o fanylion am y rhain a prosiectau eraill maes o law:

CERDDED NORDIG
Mae Caroline Moncrieff am gynnal sesiwn Cerdded Nordig yng Nghwm y Glo ar bore Dydd Iau 10 Ionawr am 10 o'r gloch y bore. Mae'r daith i gychwyn o Caffi Menter Fachwen yn Cwm y Glo. £5 y pen. Dewch i mwynhau cwmni a sgwrs - nid oes angen unrhyw brofiad ac mae'r polion gennym.

Rhagor o newyddion tro nesaf.
Hwyl am y tro
Gareth

Dear Friends

A very Happy New Year to you all and I sincerely hope that you all had a great Christmas. It's time to look ahead to what we have to offer in 2019 and it's going to be a very busy year with a number of new projects on the horizon (and we'll need your help for some of them).
Before I go on I'd like to thank all of you who came to our events at Deiniolen and Cwm y Glo schools before Christmas and for making them such a success.
So here we go with some of the news…..

THE PROGRAMME OF WALKS

Just a quick note to remind you that after 6 years of arranging walks we are taking a little breather this month. It's a very busy month work-wise (as you'll read shortly). The walks will get going again in February. Having said that, we may arrange an evening walk soon to go star-gazing…..I'll let you know…

"THE HISTORY OF THE JEWS IN BANGOR" (MAP, EXHIBITION AND APP)

The map, in conjunction with Bangor University has been completed (see attachment) and now we are working on the accompanying exhibition and a new 'App' (of the map and histories). This work will have to be finished by the end of January and I will let you know when the exhibition will take place, which will be located in the gallery in Deiniol Shopping Centre in Bangor.

REACHING THE 10,000

We reached a bit of a milestone during the History of Cwm y Glo School and Village Day on the 6th of December. The 10,000th person to have attended our walks/talks/exhibitions since establishing the Menter Fachwen Walk and Discover Project in March 2013 came in through the door. The 10,000th person

turned out to be Enid Williams from Llanrug who was awarded a bottle of something which we hope made Christmas Day a little bit more special. Here's to the next 10,000!!!!

SOME OF THIS YEAR'S PROJECTS:
As I stated previously, this looks like a really busy year with a number of new projects on the horizon that include:
THE WALES PLACE-NAMES PROJECT: Subject to confirmation, The Welsh Place-Name Society has asked us to work on collecting data and arranging walks and exhibitions etc for our area and the city of Bangor. This is a project which we will be hoping to get a number of you to get involved in helping us out….
ALLT DDU DISPLAY MAP: We will be working on a new display in Allt Ddu, Dinorwig in conjunction with Llanddeiniolen Council.
RAF LLANDWROG: An educational project that will include designing a new map of the wartime history of the airfield and a schools project….
PRESENTATIONS AND EXHIBITIONS IN THE U.S.A. We will be returning to Minnesota at the end of April to work with Hywel Roberts from 'Wild Wales Walkabouts' and help arrange events in Winona and Minneapolis.

More details on these and other projects in due course….

NORDIC WALKING

Caroline Moncrieff will hold a Nordic Walking session in Cwm y Glo on Thursday 10th January at 10 o clock. The walk will begin at Menter Fachwen's Café. £5 a head. Come and enjoy a walk and to socialise. No experience necessary and we have the sticks…..

See you soon
Take care
Gareth

HANES YR IDDEWON YM MANGOR

A JEWISH HISTORY OF BANGOR



HANESION O'R CANOL OESOEDD
HYD AT YR AIL RYFEL BYD I'W CERDDED
A'U DARGANFOD

STORIES FROM THE MEDIEVAL CITY TO THE SECOND WORLD WAR TO WALK AND DISCOVER

E·S·R·C
ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL